# CFfI CYMRU
# WALES YFC

## Eisteddfod Genedlaethol CFfI Cymru
## Wales YFC National Eisteddfod

Pafiliwn Bont, Ponrhydfendigaid



**21/11/2026**

Cystadlaethau a Rheolau
Competitions and Rules

Yn cael ei westeio gan Ffederasiwn Ceredigion
Hosted by the Ceredigion Federation

Dyddiad Cau
Closing Date

3/11/2026



# CYNNWYS – CONTENT


| CYSTADLEUAETH \| COMPETITION | RHIF TUDALEN \| PAGE NUMBER |
|---|---|
| RHEOLAU EISTEDDFOD<br>EISTEDDFOD RULES | **3** |
| ADRAN GERDD<br>MUSIC SECTION | **9** |
| ADRAN YSGAFN<br>LIGHT ENTERTAINMENT SECTION | **11** |
| ADRAN LLEFARU<br>RECITATION SECTION | **12** |
| ADRAN DAWNS<br>DANCE SECTION | **13** |
| ADRAN GWAITH CARTREF<br>HOMEWORK SECTION | **14** |

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU**
**WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

**RHEOLAU 2026-2027 RULES**

# EISTEDDFOD

**CADEIRYDD**
Enfys Hatcher Davies

**LLEOLIAD**
Bydd Eisteddfod CFfI Cymru 2026 yn cael ei westeio gan Ffederasiwn Ceredigion ar y **21ain o Dachwedd 2026 ym Mhafiliwn Bont.**

**DYDDIAD CAU**
Holl ffurflenni cystadlu, copïau o ddarnau hunan ddewisiad, darnau gwaith cartref a ffurflenni hawlfraint i fod yng Nghanolfan CFfI Cymru erbyn **Dydd Mawrth, 3ydd o Dachwedd 2026.**

**MEINI PRAWF CYMHWYSTRA**
Bydd rhaid i'r cystadleuydd fod yn 28 mlwydd oed (neu'r oedran priodol yn ôl rheolau'r gystadleuaeth) neu'n iau ar 1af o Fedi 2026. Bydd rhaid i bob cystadleuydd fod yn aelodau llawn o Glwb CFfI yng Nghymru sy'n gysylltiedig â CFfI Cymru neu FfCCFfI. Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.

Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth (â llun) yn arwain at gosb o £10. <u>Ni chaniateir</u> i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau ar y rhestr o'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelod o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth.

Bydd trefn cystadlu yn cael ei benderfynu trwy dynnu allan o het gan y staff yng Nghanolfan CFfI Cymru cyn yr Eisteddfod.

Os bydd unrhyw aelod yn dymuno cymorth i gystadlu yn un o rowndiau terfynol Cymru oherwydd anabledd (dysgu/corfforol), gwneir pob ymdrech i sicrhau y cynhwysir yr unigolyn gydag urddas, parch, a chyfrinachedd. Mae CFfI Cymru yn gofyn am wybodaeth o flaen llaw o'r math o gymorth sy'n angenrheidiol, er mwyn sicrhau y bydd yr unigolyn yn derbyn y gefnogaeth fwyaf buddiol.

**EITEMAU HWYR**
Nodwch bydd unrhyw gopïau o ddarnau hunan ddewisiad, ffurflenni hawlfraint a darnau gwaith cartref a dderbynnir wedi'r dyddiad cau a nodir yn

**CHAIR**
Enfys Hatcher Davies

**VENUE**
The Wales YFC 2026 National Eisteddfod will be hosted by the Ceredigion Federation and is being held on the **21st November 2026 at Pafiliwn Bont.**

**CLOSING DATE FOR ENTRIES**
All entry forms, copies of own choice pieces, homework section pieces and copyright forms to be at the Wales YFC Centre by **Tuesday 3rd of November 2026.**

**ELIGIBILITY**
All competitors to be 28 years of age or under (or the appropriate age according to the rules of the competition) on 1st September 2026. Competitors must be full members of a YFC Club based in Wales and affiliated to either Wales YFC or NFYFC. Members will be required to show their current Plastic Membership Card.

Failure to produce a valid membership card (with photo) will result in a £10 penalty charge. Any member whose name is not listed as a current paid up member of the Federation and who cannot produce a membership card at the start of the competition will <u>not</u> be allowed to compete.

A draw for the order of appearance for the appropriate competitions will be conducted by the staff at the Wales YFC Centre prior to the Eisteddfod.

Should a member require assistance to compete at a Wales final due to disability (learning/physical), every effort shall be made to ensure inclusion of the individual with dignity, respect and confidentiality. Wales YFC requests prior knowledge of assistance required in order to maximise the benefit to the individual.

**LATE ITEMS**
Please note that any copies of own choice pieces, copyright forms and homework section pieces that are received after the date specified in the rules,

y rheolau, yn achosi **dau bwynt cosb am bob eitem, bob dydd a bob cystadleuaeth o gyfanswm marciau'r ffederasiwn,** hyd y dyddiad derbynnir yng Nghanolfan CFfI Cymru.

will incur **two penalty marks per item, per day, per competition from the federation's overall score,** until they are received at the Wales YFC Centre.

**RHEOLAU CYFFREDINOL**
**EISTEDDFOD CFFI CYMRU**

Gall Ffederasiynau gystadlu mewn **uchafswm o 14 cystadleuaeth lwyfan** gyda 9 o'r canlyniadau gorau yn cyfrif tuag at Dlws y Buddugwyr, ynghyd â 4 o'r canlyniadau gorau yn yr adran Lenyddiaeth.

**WALES YFC EISTEDDFOD**
**GENERAL RULES**

Federations may compete in a **maximum of 14 stage competitions** with the 9 highest results counting towards the overall trophy, along with 4 of the highest results in the Literary Section.

**MARCIAU FEL A GANLYN**
1af - 4 pwynt; 2il - 3 pwynt; 3ydd - 2 bwynt; ac 1 pwynt am gyfranogi. Os na chadwir yn hollol at raglen ac amodau'r Eisteddfod, gallai hyn olygu gwaharddiad - h.y. ni roddir marc am gyfranogi yn yr eitem berthnasol.

**MARKS WILL BE AWARDED AS FOLLOWS**
1st - 4 points; 2nd - 3 points; 3rd - 2 points; 1 point for participation. Failure to comply with Eisteddfod rules could lead to disqualification, i.e. no participation points will be awarded in that particular item.

Bydd gan y Beirniaid hawl i ad-drefnu'r marciau neu i'w hatal os na fydd teilyngdod. Ni chaniateir safleoedd cydradd.

The adjudicators have the right to re-allocate or with-hold marks where they think fit. No equal placing's allowed.

**BEIRNIAID**
Bydd dyfarniad y Beirniaid yn derfynol, yn ôl y rheolau'r Eisteddfod.

**ADJUDICATORS**
The decision of the adjudicators will be final in accordance with the Eisteddfod rules.

Ni ddylai aelodau **ar unrhyw gyfrif** fynd at feirniaid i leisio'u cwyn neu ysgrifennu at fudiadau allanol, cyn i'r gwyn gael ei godi a'i drafod mewn pwyllgor cystadlaethau CFfI Cymru.

**On no account** should members approach Judges voicing their complaint or indeed writing to outside organisations, prior to the complaint being raised and discussed at a Wales YFC's competitions committee.

**DARNAU GOSOD**
Yn achlysurol, mae copïau yn mynd allan o brint. Os ydych yn darganfod bod copi wedi mynd allan o brint, cysylltwch â Chanolfan CFfI Cymru os gwelwch yn dda.

Ceir defnyddio cyweirnod o'ch dewis ond lle ceir newidiadau i'r cywair gwreiddiol, cyfrifoldeb yr unigolyn bydd trosi a darparu copi i'r cyfeilydd drwy Ganolfan CFFI Cymru erbyn **Dydd Mawrth, 3ydd o Dachwedd 2026.**

**SET PIECES**
Occasionally, copies will go out of print. If you do find that a copy has gone out of print, please contact the Wales YFC Centre.

Any Key is permitted but if changes are made to the original, the individual will be responsible for transposition and providing a copy for the accompanist through the Wales YFC Office by **Tuesday 3rd of November 2026.**

**DARNAU HUNAN DDEWISIAD**
Darnau i gyrraedd Swyddfa CFfI Cymru erbyn **Dydd Mawrth, 3ydd o Dachwedd 2026.**

**OWN CHOICE PIECES**
All pieces to be submitted to the Wales YFC Office by **Tuesday 3rd of November 2026.**

# EISTEDDFOD

Cofiwch wrth ddewis eich darnau i gystadlaethau hunan ddewisiad y bydd ambell gân / geiriau / darnau llefaru yn anoddach i'w clirio o ran hawlfraint nag eraill. Gallai hyn olygu na fydd eich perfformiad yn cael ei ddangos ar y teledu. Disgwylir i bob cystadleuydd ddiogelu hawliau pob darn sydd yn hunan ddewisiad.
Mae gan yr Urdd canllawiau drylwyr am sicrhau hawlfraint i ddarnau perfformio sydd ar gael trwy'r linc isod:-

https://www.urdd.cymru/files/8017/3193/0559/siart_llif.pdf

*Mae'n angenrheidiol i bob copi cerddoriaeth fod yn y cyweirnod y cenir gan yr ymgeiswyr.

**Ni chaniateir** cystadleuwyr i ddefnyddio'r un darn ag y gwnaethoch ei ddefnyddio i gystadlu'r flwyddyn cynt. Bydd CFfI Cymru yn gwirio hyn.

Gofynnwn i aelodau ystyried yn ofalus cyd-destun ac addasrwydd eu darnau dewisol.

**COPÏAU**
Mae gwneud copïau ychwanegol eich hun o gerddoriaeth, barddoniaeth neu unrhyw waith sydd wedi ei gyhoeddi yn anghyfreithlon. Ni fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod i gopïau.

**COSBAU**
Yn gymwys i bob cystadleuaeth sydd â chyfyngiadau amser. **Tynnir 1 pwynt i ffwrdd am bob 15 eiliad neu ran o'r amser hwnnw sydd dros yr amser penodedig.**

Nodir os gwelwch yn dda bod cyfyngiadau amser yn cynnwys gosod a chlirio'r llwyfan ac na fydd modd rhewi ac ailddechrau'r amser unwaith i amseru ddechrau er mwyn gosod a chlirio.

**CWYNION**
Dylid cyflwyno pob cwyn swyddogol yn ysgrifenedig, gyda blaen-dâl o £10, i Gadeirydd y Pwyllgor Eisteddfod o fewn 1 awr i gyhoeddiad y canlyniad. Dim ond gan aelodau o oedran aelodaeth neu Gadeirydd y Clwb neu Gadeirydd y Sir yn unig y derbynnir cwyn swyddogol. Ad-delir y blaen-dâl os profir dilysrwydd y cwyn.

Please bear in mind that when choosing your pieces for own choice competitions that certain songs / lyrics / recitation pieces are harder to clear for copyright than others. This may result in your piece not being shown on television. All competitors are expected to secure the rights to perform any own choice piece.
The Urdd has detailed guidance for securing copyright for performance pieces which can be accessed via the link below:-

https://www.urdd.cymru/files/8817/3193/0531/flowchart.pdf

*All music must be in the appropriate keys.

Competitors are **not allowed** to use the same piece as they used the previous year. Wales YFC will check this.

We ask members to carefully consider the context and appropriateness of their chosen pieces.

**COPIES**
Making your own extra copies of music, poetry or any work that has been published is illegal. Wales YFC will not be held responsible for loss or damage to copies which are to be the competitors' responsibility.

**PENALTIES**
To apply to all competitions where time restrictions have been stipulated. **1 point will be deducted for every 15 seconds or part thereof exceeding the time limits given.**

Please note that time restrictions include setting and clearing the stage and that the watch cannot be frozen and restarted to allow for setting and striking the stage.

**COMPLAINTS**
All official complaints to be given in writing and submitted to the Wales YFC Eisteddfod Chairman within one hour of the announcement of the results. A deposit of £10, which will be refunded if the complaint is substantiated, should accompany it. Complaints will only be accepted from members of membership age, Club Chairman or County Chairman.

# EISTEDDFOD

Bydd y panel cwynion yn cynnwys unrhyw dri o blith Swyddogion CFfI Cymru sy'n bresennol yn y digwyddiad. Bydd aelod o staff CFfI Cymru yn bresennol fel arsylwr.

The complaints panel will consist of any three Wales YFC Officials which are present at the event. A Wales YFC Staff member will be present as an observer.

**Y CYFRYNGAU**
Dylai'r holl gystadleuwyr nodi y gallai eu perfformiad gael ei recordio neu ei ffilmio ar gyfer y wasg. Os yw unrhyw aelod yn anfodlon gyda hyn dylent gysylltu gyda chanolfan CFfI Cymru erbyn **Dydd Mawrth, 3ydd o Dachwedd 2026.**

**MEDIA**
All competitors should note that their performance may be recorded or filmed for the purpose of media coverage. If any member is unhappy with this they should inform the Wales YFC centre by **Tuesday, 3rd of November 2026.**

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch swyddfa CFfI leol neu Ganolfan CFfI Cymru Llanelwedd
01982 553502 gwybodaeth@yfc-wales.org.uk

For more information please contact your local YFC Office or the Wales YFC Centre in Llanelwedd, 01982 553502 information@yfc-wales.org.uk

**CYSTADLAETHAU LLWYFAN**
Ni chaniateir arweinydd ar lwyfan ac eithrio cystadlaethau'r Côr Hwyl, Côr Cymysg a'r Parti Unsain.

Os ydych yn defnyddio traciau cefndir ar gyfer cystadleuaeth Unawd Sioe Gerdd neu Gôr Hwyl, ni fydd rhediad technegol ar gael.

**STAGE COMPETITIONS**
Conductors will only be allowed on stage for the Fun Choir, Mixed Choir and the One Voice Party competitions.

If using backing tracks for Musical Solo or Fun Choir competition, there will be no tech run available.

**UNAWDAU**
Noder yr ystod oedran: 17 oed neu iau a 28 oed neu iau. Dim ond mewn un categori oedran y gall aelod gystadlu.

**SOLO**
Please note age categories: 17 or under and 28 or under. Members can only compete in one age category.

**PARTI UNSAIN**
Dim mwy na 16 aelod 28 mlwydd oed neu iau.

**UNISON PARTY**
No more than 16 members 28 years of age or under.

**CÔR**
Nid oes cyfyngiad ar nifer yr aelodau 28 oed neu iau. Caniateir 10 cystadleuydd dros 28 oed. Rhaid i bob aelod o'r côr dros 28 oed gofrestru fel aelod cyswllt.

Ni ddarperir grisiau i'r côr gan CFfI Cymru, ond os dymuna clwb ddefnyddio grisiau, caniateir defnyddio grisiau eu hunain, ond mae rhaid i'r grisiau yma gydymffurfio â pholisi iechyd a diogelwch CFfI Cymru. Cyfrifoldeb y clwb fydd sicrhau bod y grisiau yn cydymffurfio gyda'r polisi cyn yr Eisteddfod.

**CHOIR**
There is no restriction on the number of members 28 years of age or under. 10 competitors over 28 years old are allowed. Every member of the choir over 28 must be signed up as an associate member.

Wales YFC will not provide staging for the choir. If a club wishes to use staging they may, however, the staging must conform to Wales YFC's Health and Safety policy. It is the responsibility of the club to ensure that they conform to the policy before the Eisteddfod.

# EISTEDDFOD

**CYFEILYDD**
Rhaid defnyddio gwasanaeth cyfeilyddion swyddogol yr Eisteddfod ym mhob cystadleuaeth gan eithrio'r canlynol: Unawd Sioe Gerdd neu Ffilm, Deuawd neu Driawd Doniol, Unawd Offerynnol, Parti Unsain, Côr Hwyl neu Gôr Cymysg.

Gall cystadleuwyr yn y cystadlaethau sydd wedi eu rhestru uchod gael cyfeilyddion eu hunain, ond os dymunant gael gwasanaeth cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod, rhaid iddynt anfon copi gwreiddiol **(*nid llungopi)*** o'r gerddoriaeth i Ganolfan CFfI Cymru erbyn **Dydd Mawrth, 3ydd o Dachwedd 2026.**

Bydd ystafell ymarfer ar gael yn ystod yr Eisteddfod.

**ACCOMPANIST**
The Eisteddfods official accompanists must be used in every competition apart from the following: Musical or Film Solo, Humorous Duet or Trio, Instrumental Solo, One Voice Party, Fun Choir or Mixed Choir.

Competitors in the competitions listed above may use their own accompanist, however if they wish to use the Eisteddfod's official accompanist original copies **(*not photocopies*)** of the music should be sent to Wales YFC Centre by the **Tuesday, 3rd of November 2026.**

A practice room will be available during the Eisteddfod.

**LLEFARU UNIGOL**
Noder yr ystod oedran: 17 oed neu iau a 28 oed neu iau. Dim ond mewn un categori oedran y gall aelod gystadlu.

**INDIVIDUAL RECITATION**
Please note age categories: 17 and under, and 28 and under. Members can only compete in one age category.

**PARTI LLEFARU**
Dim mwy na 16 aelod 28 oed neu iau.

**RECITATION PARTY**
No more than 16 members 28 years of age or under.



**SYMUD EITEMAU AR AC ODDI AR Y LLWYFAN**
Dylai aelodau nodi mai aelodau, ac aelodau yn unig, ddylai symud unrhyw eitemau ar ac oddi ar y llwyfan. Ni ddylai unigolion nad ydynt yn aelodau fod ar y llwyfan.

**CARRYING ITEMS TO THE STAGE**
Members should note that members and members only are to carry any items onto the stage and off. On no account should non-members be visible on the stage at any one time.

**CEFN LLWYFAN**
I sicrhau fod yr Eisteddfod yn cychwyn yn brydlon am 9.30yb, dylai'r ymgeiswyr sy'n cystadlu yn y gystadleuaeth gyntaf a gynhelir ar y llwyfan, gyrraedd **ERBYN 9.00yb**.

**BACKSTAGE**
To ensure that the event commences promptly at 9.30am all competitors taking part in the first stage competition must **REPORT BY 9.00am**.

**GWAITH CARTREF**
Rhaid i'r ceisiadau yn yr Adran Gwaith Cartref gyrraedd Canolfan CFfI Cymru erbyn **Dydd Mawrth, 3ydd o Dachwedd 2026.** Ni fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am ddarparu copïau i'r beirniaid os na fydd y darnau gennym cyn y dyddiadau yma.

Ni dderbynir gwaith sydd eisoes wedi ei gyhoeddi. Bydd gan CFfI Cymru'r hawl i gyhoeddi unrhyw waith a ymgeisir yn yr Adran Gwaith Cartref.

**HOMEWORK**
All entries in the Homework Section must be submitted to the Wales YFC Centre by **Tuesday, 3rd of November 2026.** Wales YFC will not be responsible for providing copies to the judges unless they have been received by this date.

No previously published work will be accepted. Wales YFC has the right to publish any work that has been submitted in the Homework Section.

Dylai ymgeiswyr yn y cystadlaethau llenyddol ddefnyddio ffugenw.

**CYSTADLEUAETH Y GADAIR A'R GORON**
Pe na fydd y buddugwr yng Nghystadleuaeth y Gadair / y Goron yn medru bod yn bresennol oherwydd amgylchiadau arbennig, megis profedigaeth deuluol neu afiechyd - pan fydd angen tystysgrif feddygol, rhoddir y Gadair / y Goron i'r buddugwr ac fe wahoddir cynrychiolydd o Glwb yr enillydd i dderbyn y Gadair / y Goron a chymryd rhan yn y Seremoni Gadeirio / Goroni ar ei r(h)an. Os na fedr y buddugwr fod yn bresennol am resymau gwahanol i'r uchod, atelir y Gadair / y Goron yn gyfan gwbl.

Competitors in the written literacy section should use nom-de-plumes.

**THE CHAIR AND CROWN COMPETITION**
In the event of the winning entrant being unable to attend due to exceptional circumstances, such as family bereavement or health reasons - when a medical certificate will be required, the chair / crown will be awarded to the winner and a representative from the winner's Club will be invited to accept the Chair / Crown and take part in the Chairing / Crowning Ceremony on his/her behalf. If the winner is unable to be present for reasons other than mentioned, the chair / crown will be withheld.

# EISTEDDFOD

**ADRAN GERDD**
**MUSIC SECTION**

**1. UNAWD 17 NEU IAU**
'Cwm Alltcafan' gan J. Eirian Jones, allan o lyfr Cynghanedd Cariad 3 (Y Lolfa).

**SOLO 17 OR UNDER**
Where the Bee Sucks, Arne
(Gwynn Publishing co.)

**2. UNAWD 28 NEU IAU**
Unrhyw gân gan Meirion Williams neu Schubert

*Dylai cystadleuwyr nodi eu bod yn gyfrifol am glirio pob hawlfraint eu hunain ac na fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am glirio hawlfraint ar gyfer y perfformiad.

**SOLO 28 OR UNDER**
Any Song by Meirion Williams or Schubert

*Competitors should note that they themselves will be responsible for clearing copyright. Wales YFC will not be responsible for clearing copyright for the performance.

**3. UNAWD ALAW WERIN**
Unrhyw alaw werin allan o 'Cân di bennill' gan Geraint Lewis (Y Lolfa)

**FOLK SONG SOLO**
Any folk song out of 'Cân di bennill' by Geraint Lewis (Y Lolfa)

**4. CANU EMYN 28 NEU IAU**
Unrhyw emyn allan o adran 'Mawl a Diolch i Iesu' - Caneuon Ffydd

**HYMN SINGING 28 OR UNDER**
Any hymn out of 'Mawl a Diolch i Iesu' section - Caneuon Ffydd

**5. ENSEMBLE LLEISIOL**
Hunan Ddewisiad (di-gyfeiliant) dan y thema 'Dathlu'
Rhwng 3 a 9 o aelodau i ganu o leiaf 3 rhan.
Heb fod yn fwy na 4 munud.

*Dylai cystadleuwyr nodi eu bod yn gyfrifol am glirio pob hawlfraint eu hunain ac na fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am glirio hawlfraint ar gyfer y perfformiad.

**VOCAL ENSEMBLE**
Own Choice (unaccompanied) under the theme 'Celebrate'
Between 3 and 9 members to sing at least 3 parts. Not to exceed 4 minutes.

*Competitors should note that they themselves will be responsible for clearing copyright. Wales YFC will not be responsible for clearing copyright for the performance.

**6. PARTI UNSAIN**
Cân T Llew, gan J Eirian Jones, geiriau Dwynwen Lloyd Llywelyn, allan o Cynghanedd Cariad 3 (Y Lolfa)

**ONE VOICE PARTY**
Friends by Gareth Glyn, words by John Stoddart (Curiad Publishers)

**7. DEUAWD 28 NEU IAU**
Hunan Ddewisiad
(heb fod yn fwy na 5 munud)

*Dylai cystadleuwyr nodi eu bod yn gyfrifol am glirio pob hawlfraint eu hunain ac na fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am glirio hawlfraint ar gyfer y perfformiad.

**DUET 28 OR UNDER**
Own Choice
(not to exceed 5 minutes)

*Competitors should note that they themselves will be responsible for clearing copyright. Wales YFC will not be responsible for clearing copyright for the performance.

**8. UNAWD SIOE GERDD NEU FFILM 17 NEU IAU**
Hunan ddewisiad.
Heb fod yn fwy na 5 munud.
Dim ond mewn un adran o'r Unawd Sioe Gerdd neu Ffilm y gall cystadleuwyr gystadlu.

*Dylai cystadleuwyr nodi eu bod yn gyfrifol am glirio pob hawlfraint eu hunain ac na fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am glirio hawlfraint ar gyfer y perfformiad.

**MUSICAL OR FILM SOLO 17 OR UNDER**
Own choice.
Not to exceed 5 minutes.
Competitors can only compete in one section of the Musical or Film Solo.

*Competitors should note that they themselves will be responsible for clearing copyright. Wales YFC will not be responsible for clearing copyright for the performance.

**9. UNAWD SIOE GERDD NEU FFILM 18-28 BLWYDD OED**
Hunan ddewisiad.
Heb fod yn fwy na 5 munud.
Dim ond mewn un adran o'r Unawd Sioe Gerdd neu Ffilm y gall cystadleuwyr gystadlu.

*Dylai cystadleuwyr nodi eu bod yn gyfrifol am glirio pob hawlfraint eu hunain ac na fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am glirio hawlfraint ar gyfer y perfformiad.

**MUSICAL OR FILM SOLO 18-28 YEARS OF AGE**
Own choice.
Not to exceed 5 minutes.
Competitors can only compete in one section of the Musical or Film Solo.

*Competitors should note that they themselves will be responsible for clearing copyright. Wales YFC will not be responsible for clearing copyright for the performance.

**10. UNAWD OFFERYNNOL 28 NEU IAU**
Hunan ddewisiad (heb fod yn fwy na 5 munud).

*Dylai cystadleuwyr nodi eu bod yn gyfrifol am glirio pob hawlfraint eu hunain ac na fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am glirio hawlfraint ar gyfer y perfformiad.

**INSTRUMENTAL SOLO 28 OR UNDER**
Own choice (not to exceed 5 minutes).

*Competitors should note that they themselves will be responsible for clearing copyright. Wales YFC will not be responsible for clearing copyright for the performance.

**11. CÔR HWYL**
1-4 Llais
Lleiafswm o 17 aelod, uchafswm o 30.
Dim aelodau cyswllt i gymryd rhan.
Uchafswm o 3 chlwb sy'n gallu ymuno â'i gilydd i gystadlu yn y gystadleuaeth hon.

HUNAN DDEWISIAD – e.e. cân allan o sioe gerdd, emyn traddodiadol, cân o'r siartiau. Ni chaniateir canu'r un gân a'r Côr Cymysg, canu mwy na un cân (medley), na chaneuon côr CFfI Cymru o'r 5 mlynedd diwethaf.

*Dylai cystadleuwyr nodi eu bod yn gyfrifol am glirio pob hawlfraint eu hunain ac na fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am glirio hawlfraint ar gyfer y perfformiad.

**FUN CHOIR**
1 – 4 voices allowed.
Minimum of 17 members, maximum of 30.
No overage members to take part.
Maximum of 3 clubs able to join together to compete.
OWN CHOICE – e.g. song from a musical, traditional hymn, song from the charts.
Choirs must not sing the same song as the Mixed Choir competition, a medley of songs or choir songs from Wales YFC from past 5 years.

*Competitors should note that they themselves will be responsible for clearing copyright. Wales YFC will not be responsible for clearing copyright for the performance.

# EISTEDDFOD

**12. CÔR CYMYSG 28 NEU IAU**

Drws Nesa Dros y Don gan Eric Jones, geiriau Ceri Wyn Jones. (Cyhoeddiadau Curiad) Caniateir i glybiau o'r un sir i gyfuno i'r gystadleuaeth hon.

**MIXED CHOIR 28 OR UNDER**

Drws Nesa Dros y Don by Eric Jones, words by Ceri Wyn Jones. (Curiad Publishers). These rules allow clubs from the same county to merge for this competition.

## ADRAN LEFARU
## RECITATION SECTION

**13. LLEFARU 17 NEU IAU**

CFfI gan Megan Lewis
*Copi ar wefan CFfI Cymru

**RECITATION 17 OR UNDER**

The Little Things by Eurig Salisbury
(Publisher: eurig.cymru)

**14. LLEFARU 28 NEU IAU**

Detholiad allan o unrhyw stori o 'Gwreiddio, Straeon byrion am fyw yn y wlad.'
Darperir detholiad o 'Y Fan a'r Lle' neu mae modd dewis detholiad eich hun allan o unrhyw un o'r straeon. Dim mwy na 4 munud

**RECITATION 28 OR UNDER**

An extract from Martha, Jack & Shanco by Caryl Lewis. (Y Lolfa)
A specific extract from the book will be provided or competitors are welcome to choose their own extract from the book. No more than 4 minutes.

**15. LLEFARU I DDYSGWYR 28 AC IAU**

Ffermwyr Ifanc gan Elinor Wyn Reynolds, allan o Anwyddoldeb (Barddas)

Os ydynt wedi bod mewn addysg cyfrwng Cymraeg ers 4 blynedd neu fwy, nid ydynt yn gallu cystadlu yn y gystadleuaeth hon.

**WELSH LEARNERS RECITATION 28 OR UNDER**

Ffermwyr Ifanc by Elinor Wyn Reynolds, from Anwyddoldeb (Barddas)

If they have been in Welsh medium education for 4 years or more, they are not able to compete in this competition.

**16. PARTI LLEFARU 28 NEU IAU**

Breuddwyd gan Huw Evans, allan o Rhwng Teifi, Dyfi a'r don (Sebra)

**RECITATION PARTY 28 OR UNDER**

Outside, Inside Centre by Eurig Salisbury
(Publisher: eurig.cymru)

**17. YMGOM 28 NEU IAU**

Rhwng 2 a 4 aelod.
Hunan ddewisiad gan unrhyw ddramodydd/awdur o Gymru. Gall fod o ddrama neu lyfr. Dim mwy na 5 munud.

**PLAYLET 28 OR UNDER**

Between 2 and 4 members.
Own choice by any Welsh author/playwrite. Can be from a drama or book. No more than 5 minutes.

**ADRAN YSGAFN**
**LIGHT ENTERTAINMENT SECTION**

**18. MEIMIO I GERDDORIAETH 28 NEU IAU**
Thema: 90au

Dim mwy na 5 munud. Cosbir gwaith o natur anweddus.

*Cofiwch wrth ddewis eich caneuon mae rhai yn anoddach i'w clirio o ran hawlfraint nag eraill. Gallai hyn olygu na fydd eich perfformiad yn cael ei ddangos ar y teledu.

**MIME TO MUSIC 28 OR UNDER**
Theme: 90s

No more than 5 minutes. Material of an improper nature will be penalised.

*Please bear in mind when choosing songs that some are harder to clear for copyright than others. This may result in your performance not being shown on television.

**19. SGETS 28 NEU IAU**
Thema: Cystadlu

Dim mwy na 5 munud.

Cosbir gwaith o natur anweddus.

*Sgript y sgets i gyrraedd Canolfan CFfI Cymru erbyn **Dydd Mawrth, 3ydd o Dachwedd 2026**.
* Os bydd aelodau yn perfformio sgets sydd wedi'i chyhoeddi, nhw sy'n gyfrifol am gael unrhyw ganiatâd hawlfraint angenrheidiol. Ni fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am glirio hawlfraint ar gyfer y perfformiad.

**SKETCH 28 OR UNDER**
Theme: Competing

No more than 5 minutes.

Material of an improper nature will be penalised.

*Script to arrive at Wales YFC Centre by **Tuesday, 3rd of November 2026.**
* If members perform a published sketch, they are responsible for obtaining any necessary copyright permission. Wales YFC will not be responsible for clearing copyright for the performance.

**20. DEUAWD NEU DRIAWD DONIOL 28 NEU IAU**
Hunan ddewisiad.

**HUMOROUS DUET OR TRIO 28 OR UNDER**
Own choice.
Not to exceed 5 minutes. Material of an improper nature will be penalised.

Dim mwy na 5 munud. Cosbir gwaith o natur anweddus.

*Copi o'r geiriau i gyrraedd Canolfan CFfI Cymru erbyn **Dydd Mawrth, 3ydd o Dachwedd 2026.**

*Copy of words to arrive at Wales YFC Centre by **Tuesday, 3rd of November 2026.**

*Dylai cystadleuwyr nodi eu bod yn gyfrifol am glirio pob hawlfraint eu hunain ac na fydd CFfI Cymru yn gyfrifol am glirio hawlfraint ar gyfer y perfformiad.

*Competitors should note that they themselves will be responsible for clearing copyright. Wales YFC will not be responsible for clearing copyright for the performance.

**21. SGEN TI DALENT?**

Unrhyw dalent heblaw am y rhai sydd wedi nodi fel cystadleuaeth yn yr Eisteddfod e.e. dim ymgom, sgets, unawd offerynnol, parti canu, dawns amlgyfrwng.
Rhwng 1 a 6 aelod.
Enghreifftiau – Stand yp, adrodd digri, cân bop, cân gyfoes, band y gegin, dawns y glocsen.

Ceir 5 munud i ddiddanu'r gynulleidfa ac mae hyn yn cynnwys gosod a chlirio'r llwyfan.

**HAVE YOU GOT TALENT?**

Any talent besides those that are noted as a competition in the Eisteddfod, i.e. no playlet, sketch, instrumental solo, singing party, dance.
Between 1 and 6 members.
Examples – Stand up, humerous recitation, pop song, contemporary song, kitchen band, clog dancing.
Competitors have 5 minutes to entertain the audience and this includes setting and clearing the stage.

**22. BWLETIN NEWYDDION**

2-3 aelod yn derbyn pennawd newyddion ar ddiwrnod yr Eisteddfod, 5 munud i baratoi ac yna hyd at 4 munud i berfformio. Bydd bob tîm yn derbyn yr un tri pwnc.

Enghreifftiau – Cadeirydd CFfI Cymru wedi ei benodi yn Brif Weinidog Cymru, dosbarth camelod yn newydd i'r Sioe Frenhinol, storm mawr wedi torri.

**NEWS BULLETIN**

2-3 members will receive a news headline on the day of the Eisteddfod. 5 minutes to prepare and then up to 4 minutes on stage. All teams will receive the same three topics.

Examples – Wales YFC Chair elected as Wales First Minister, New camel class at the Royal Welsh Show, big storm has erupted.



## ADRAN DAWNS
## DANCE SECTION

**1. DAWNS AMLGYFRWNG**

Thema: Dathlu

Dim llai na 4 mewn nifer. Dehongliad creadigol o thema drwy arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf dwy arddull gyferbyniol. Rhwng 2 a 5 munud.

**MULTI-STYLE DANCE**

Theme: Celebrate

No less than 4 members. A creative interpretation of the theme using contrasting styles. Must include atleast two contrasting styles. Between 2 and 5 minutes.

# EISTEDDFOD

**ADRAN GWAITH CARTREF**
**HOMEWORK SECTION**

1. **RHYDDIAITH 28 NEU IAU**
Thema: Y Gêm

**PROSE 28 OR UNDER**
Theme: The Game

2. **CERDD 28 NEU IAU**
Thema: Bwlch neu Bylchau

**POEM 28 OR UNDER**
Theme: Void or The Void

3. **CYWAITH CLWB 28 NEU IAU**
Podlediad ar y thema 'Hanes ein Clwb'
Hyd at 20 munud o hyd.
Rhaid i aelodau arwain neu gyflwyno'r podlediad ond mae modd iddynt gyfweld a chyn aelodau.

**CLUB PROJECT 28 OR UNDER**
Podcast on the theme 'Our Club's History'
Maximum of 20 minutes.
Members must lead or host the podcast but may interview past members if they wish.

4. **CYSTADLEUAETH I AELODAU 10 – 13 OED**
Cerdyn dathlu 90 – unrhyw gyfrwng
Dim mwy na A5 gorffenedig.

**COMPETITION FOR MEMBERS 10 -13 YEARS**
90th Celebration card – any medium
No bigger than A5.

5. **CYSTADLEUAETH I AELODAU 14-16 OED**
Blog o'r Sioe Fawr, uchafswm o 400 o eiriau.

**COMPETITION FOR MEMBERS 14–16 YEARS**
To write a blog from the Royal Welsh Show, maximum of 400 words.

6. **CYSTADLEUAETH I AELODAU 21 NEU IAU**
Portread ysgrifenedig o gyn-aelod o'ch clwb, uchafswm o 800 o eiriau.

**COMPETITION FOR MEMBERS 21 OR UNDER**
A written portrait of a former club member, a maximum of 800 words.

7. **CYSTADLEUAETH I AELODAU 28 NEU IAU**
Ysgrifennu llythyr i fy hun yn 11 oed, uchafswm o 800 o eiriau.

**COMPETITION FOR MEMBERS 28 OR UNDER**
Write a letter to your 11-year-old self, maximum of 800 words.

8. **BRAWDDEG 28 NEU IAU**

**SENTENCE 28 OR UNDER**

CANTREF

**9. LIMRIG 28 NEU IAU**
'Pob cardi sy'n dynn'
I gynnwys yr uchod yn rhywle o fewn y 5 llinell fel llinell gyfan neu rhan o linell.

**10. CELF A CHREFT 18 NEU IAU**
Y Ladi Gymreig (2D) – dim mwy na A3

**11. CELF A CHREFT DROS 18 OED**
Y Ladi Gymreig (3D) – dim mwy na 30cm x 30cm x 45cm

CANTREF

**LIMERICK 28 OR UNDER**
'I once bought a cob'
The above must be included somewhere within the 5 lines, as a full line or part of a line.

**ARTS AND CRAFT 18 OR UNDER**
The Welsh Lady (2D) – no more than A3 size

**ARTS AND CRAFT OVER 18 YEARS**
The Welsh Lady (3D) – no more than 30cm x 30cm x 45cm